

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Cymwysterau Cymru

## Partïon

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, cwmni cyfyngedig preifat drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif cwmni 03344784 (**Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch**)

Cymwysterau Cymru, sef corff a sefydlwyd drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (**Cymwysterau Cymru**)

## Cyflwyniad

- Bwriedir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gefnogi trefniadau gwaith effeithiol rhwng yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Cymwysterau Cymru. Drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, cyfeirir at yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Cymwysterau Cymru gyda'i gilydd fel 'ni', a defnyddir y term 'ein' yn unol â hynny.

## Nodau'r Cytundeb

- Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu ar lefel uchel yr egwyddorion a fydd yn sail i'r cydberthnasau rhyngom ni. Ni fwriedir iddo ymdrin â phob un o fanylion y gydberthynas. Bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio cydberthnasau er mwyn osgoi, hyd y gellir, ddyblygu ymdrech, camddealltwriaeth neu effaith anfwriadol ar drydydd partïon ac ar ein gilydd. Nod cyffredinol y cytundeb hwn fydd rheoli'r baich rheoleiddio ar sefydliadau lle bynnag y bo modd.
- Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw helpu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Cymwysterau Cymru i gydweithio er mwyn helpu'r ddau sefydliad i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn effeithlon.

## Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

- Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfrwymol yn gyfreithiol. Bwriedir iddo fod yn ddogfen weithio a gaiff ei hadolygu yng ngoleuni newidiadau i'r dirwedd sefydliadol, polisi'r naill barti a'r llall neu'r priod Lywodraethau ac ymarfer gweithredol.
- Mae pob parti sydd wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson â'r dealltwriaethau a nodir yn y ddogfen hon, ond pan fydd gwrthdaro sy'n ymwneud â phrif amcanion, dyletswyddau neu gyfrifoldebau un parti, bydd y parti arall yn cael blaenoriaeth o ran darpariaethau'r memorandwm hwn.

6. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei ategu gan gytundebau gweithredol eraill a manylach, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth.

### **Rolau a'r Cefndir Deddfwriaethol**

7. Sefydlwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn 1997<sup>1</sup>, ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau ym maes addysg uwch ac am lywio ac annog gwelliant parhaus o ran ansawdd addysg uwch, addysgu a dysgu yn y DU ac mewn mannau eraill. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch hefyd yn gyfrifol am y fframwaith rheoleiddio sy'n rheoleiddio ac yn cydnabod cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch.
8. Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Materion o Ddiddordeb Cyffredin**

9. Wrth barchu rolau a chyfrifoldebau gwahanol y ddau barti, a'u rolau ar wahân, mae nifer o feysydd o ddiddordeb cyffredin a lle mae cydgysylltiad yng nghyd-destun darparu addysg yng Nghymru. Bydd cydweithio o fudd i'r ddau barti wrth osgoi dyblygu gwaith a chyflawni eu cylchoedd gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys rhannu gwybodaeth sy'n dod i law drwy fusnes arferol am y canlynol:
  - Asiantaethau Dilysu Mynediad, sy'n cael eu trwyddedu<sup>2</sup> gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ac sy'n gyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru hefyd.
10. Defnyddir y term 'sefydliadau' drwy'r ddogfen hon i gyfeirio at Asiantaethau Dilysu Mynediad a drwyddeddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a chyrrff dyfarnu a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru.
11. Bydd amgylchiadau pan mai cydweithio fydd y ffordd orau o gyflawni ein dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill mewn modd effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn er ein budd ni a budd y sefydliadau y mae'r ddau ohonom yn eu rheoleiddio drwy osgoi dyblygu gwaith a chynyddu'r baich rheoleiddio'n ddiangen.
12. Rydym yn ymrwymedig i egwyddor cyfathrebu da mewn perthynas â meysydd o ddiddordeb cyffredin. Byddwn yn gwneud hyn drwy gysylltu â'n gilydd yn rheolaidd a thrafod materion perthnasol yn rheolaidd. Ni fwriedir cyfyngu ar ddisgresiwn y naill

---

<sup>1</sup> Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn elusen gofrestrdedig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)

<sup>2</sup> Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn trwyddedu'r Asiantaethau Dilysu Mynediad ac yn rheoleiddio'r ffordd y maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn unol â'r drwydded.

barti na'r llall ond caiff y naill gyfle i gyflwyno sylwadau i'r llall mewn da bryd er mwyn i'r rhain gael eu hystyried.

13. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Pan fydd yn briodol, hysbysu ein gilydd cyn gynted â phosibl ynghylch datblygiadau perthnasol yn ein meysydd cyfrifoldeb a, phan fydd yn bosibl, cyn cyhoeddi unrhyw adroddiadau, datganiadau i'r wasg, areithiau neu bolisiau perthnasol.
- Ystyried barn y llall yn briodol a rhoi esboniad pan na fyddwn yn cytuno.
- Pan fydd yn briodol, ystyried gwneud y gorau o gyfleoedd i gyfathrebu materion o ddiddordeb cyffredin ar y cyd.
- Ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â gallu sefydliad i gydymffurfio ag amodau cydnabod y naill barti a'r llall.
- Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (gan gynnwys unrhyw ddeddfiadau sy'n eu diwygio neu'n eu disodli), a chyfyngiadau eraill (e.e. cyfrinachedd masnachol, materion sensitif o ran pris), gallwn gyfnewid gwybodaeth yn gyfrinachol o bryd i'w gilydd.

14. Pan fydd yn briodol, byddwn yn gwahodd ein gilydd i ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan un ohonom ac sydd o ddiddordeb i'r ddau ohonom. Bydd pob parti'n gyfrifol am ddwyn eu costau eu hunain.

15. Pan fydd yn briodol, byddwn yn cysylltu â'n gilydd, cynnwys ein gilydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gilydd yn ôl yr angen wrth i ddogfennau sy'n berthnasol i swyddogaethau'r llall gael eu drafftio.

### **Cydberthynas Waith**

16. Byddwn yn ceisio datblygu'r gydberthynas waith dda sy'n bodoli eisoes rhyngom ni drwy nodi'n glir y ffordd y byddwn yn rhyngweithio drwy'r memorandwm hwn a chyfarfod cyswllt blynyddol er mwyn i ni allu gwneud y canlynol:

- nodi'r hyn y mae pob parti yn disgwyl gan ei gilydd yn glir
- cydnabod cyfrifoldebau, strwythurau atebolrwydd a fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu gwahanol ein gilydd
- datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'n priod rolau a chyfrifoldebau
- mynd ati i geisio atebion i osgoi neu liniaru effeithiau unrhyw faterion a all effeithio ar y ffordd y cyflwynir cymwysterau Diploma Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru
- hysbysu ein gilydd mewn modd amserol a phriodol am ddatblygiadau polisi a rheoleiddio, gan gynnwys deialog cynnar ar faterion a fydd yn effeithio ar waith y parti arall
- hysbysu ein gilydd mewn modd amserol a phriodol pan fydd yn debygol y gall cyhoeddiadau a datblygiadau pwysig gan y naill barti effeithio ar feysydd gwaith

- allweddol y llall neu ar sefydliad sydd hefyd yn cael ei reoleiddio gan y parti arall. Pan fydd y materion hyn yn gyfrinachol, byddwn yn parchu'r cyfrinachedd hwnnw
- hysbysu rhanddeiliaid ynglŷn â'n cydberthynas gan gynnwys cyhoeddi copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar ein priod wefannau
  - rhannu gwybodaeth am raglenni gwaith a fyddai o ddiddordeb i'r parti arall cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau, lle y bo modd
  - gwahodd ein gilydd i ddigwyddiadau y mae'r naill barti a'r llall yn eu cynnal a all fod yn berthnasol i waith y ddau barti, ar yr amod y bydd y naill barti a'r llall yn gyfrifol am ddwyn ei gostau ei hun mewn perthynas â mynd i unrhyw ddigwyddiadau o'r fath neu gynnal unrhyw ddigwyddiad o'r fath

### **Cyfnwid Gwybodaeth**

17. Byddwn bob amser a phan fydd yn briodol yn gweithredu'n unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (gan gynnwys unrhyw ddeddfiadau sy'n eu diwygio neu'n eu disodli) ac unrhyw a phob deddfwriaeth a chytundeb arall.
18. Bydd rhannu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion am sefydliadau dyfarnu y mae'r ddau barti yn eu cydnabod ac unrhyw gamau rheoleiddio a gymerir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu Cymwysterau Cymru mewn perthynas â sefydliadau dyfarnu y mae'r ddau barti yn eu cydnabod yn destun cytundeb ysgrifenedig ar wahân a gaiff ei gyhoeddi.
19. Os cyflwynir cais i'r naill barti neu'r llall o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n eiddo i'r parti arall, bydd yn hysbysu'r parti arall ac yn ymgynghori ag ef. Bydd y parti arall yn ymateb mewn da bryd i ganiatáu i'r parti y cyflwynir y cais iddo ymateb mewn modd ac o fewn terfynau amser sy'n cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
20. Mae'n rhaid i wybodaeth a roddir gan y naill i'r llall gael ei chadw'n ddiogel. Bydd y naill barti a'r llall yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth a ddarperir, a bod trefniadau o'r fath yn dderbyniol i'r llall.
21. Dim ond am gyfnod sy'n berthnasol i gyflawni ei swyddogaethau y bydd un parti yn cadw gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol, y mae'n ei derbyn gan y parti arall yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Ni fydd hwn yn fwy na chyfnod o ddwy flynedd fel arfer, pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddileu'r wybodaeth neu ei chadw. Bydd unrhyw benderfyniad i gadw gwybodaeth yn ystyried perthnasedd, anghenraid, cymesuredd, a deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chadw cofnodion cyhoeddus.

### **Diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

22. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei ddiwygio ar unrhyw adeg drwy gytundeb ysgrifenedig a lofnodwyd gan y ddau barti.

## Gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

23. Mae'r ddogfen hon yn nodi'n glir yr egwyddorion sy'n sail i weithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. O ddydd i ddydd, dylai materion gael eu datrys gan y rheolwyr ym mhob sefydliad sy'n gyfrifol am y gwaith neu drwy'r cyfarfodydd cyswllt. Gellir uwchgyfeirio materion o natur sylweddol na ellir eu datrys ar unwaith at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, a fydd yn gyfrifol am ddatrys y mater ar ôl hynny. Bydd y ddau sefydliad yn ymrwymo i gyfarfod o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cafodd y mater ei uwchgyfeirio gyntaf er mwyn cytuno ar ffordd o'i ddatrys yn brydlon.

## Cyhoeddi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

24. Bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Cymwysterau Cymru ill dau yn rhoi copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar eu priod wefannau.

## Tymor a Therfynu

25. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar y dyddiad y'i llofnodir gan y ddau barti, a bydd yn parhau nes y caiff ei derfynu yn unol â chymal 23.
26. Caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi o leiaf dri mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r parti arall ar unrhyw adeg.

## Llofnodwyr

Llofnodwyd gan:

ar ran Cymwysterau Cymru  
Philip Blaker  
Prif Weithredwr

ar ran yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar  
gyfer Addysg Uwch  
Douglas Blackstock  
Prif Weithredwr

Dyddiad

Dyddiad